**Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona**

**Cyfarfod Rhithwir ar MS Teams, dydd Mawrth 9 Tachwedd 2021 am 12:30**

1. **Yn bresennol:**

Senedd Cymru – Welsh Parliament

Helen Cunningham – Swyddfa John Griffiths AS
Alun Davies – Aelod o'r Senedd (AS) (Llafur)
Delyth Jewell – Aelod o'r Senedd (AS) (Plaid Cymru)
Natasha Asghar – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)
Sioned Williams – Aelod o'r Senedd (AS) (Plaid Cymru)
Dr Lee Gonzalez – staff cymorth Joel James, Aelod o'r Senedd
Dr Eleri Cubbage – Swyddfa Lynne Neagle, Aelod o'r Senedd
Bill Thomas – Swyddfa Joyce Watson, Aelod o'r Senedd
Charlotte Knight – Swyddfa Jayne Bryant, Aelod o'r Senedd
Paul Smith – Pennaeth Staff y Ceidwadwyr Cymreig
Andrew Bettridge – Uwch-swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AS

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'u staff
Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru
Jeff Cuthbert – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Andy Dunbobbin – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Wayne Jones – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Eleri Thomas – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Emma Wools – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Sian Curley – Prif Weithredwr, tîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Cerith Thomas – Cynghorydd, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Prif Gwnstabliaid a'u staff
Pam Kelly – Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent, a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru
Claire Parmenter – Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
Paul Morris – Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu
Gethin Jones – Uned Gyswllt yr Heddlu
Robin Fuller – Swyddog Staff y Prif Gwnstabl Pam Kelly
Lynda Young – Uned Gyswllt yr Heddlu, Ysgrifennydd y Grŵp

Gwahoddedigion
Gary Haggaty – Dirprwy Gyfarwyddwr – Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

2. **Helen Cunningham, Cadeirydd Dros Dro**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan egluro ei bod ar hyn o bryd yn dirprwyo ar ran John Griffiths, gan nad oedd ef yn gallu cadeirio'r cyfarfod y tro hwn.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i gyflwyno Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Pam Kelly, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, gan egluro mai diben y cyfarfod yw rhoi cyfle i Aelodau o'r Senedd drafod Cymru sy'n fwy diogel i Fenywod a Merched.

3. **Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

Diolchodd Dafydd Llywelyn i'r Cadeirydd, a chroesawodd bawb i'r cyfarfod gan dynnu sylw at y ffaith bod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona wedi'i sefydlu ers rhai blynyddoedd ac mae'n falch iawn o weld sut mae'r grŵp wedi esblygu. Pwysleisiwyd mor bwysig yw'r buddion sylweddol i Aelodau'r Senedd o fynychu cyfarfodydd i ddeall rhai o'r agendâu y mae'r heddlu'n delio â nhw.

Dywedodd Dafydd Llywelyn y byddai Pam Kelly, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd presennol Grŵp Prif Swyddogion Cymru, ac Alun Michael, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd presennol y Grŵp Plismona yng Nghymru, yn rhoi cyflwyniad ar y cyd.

Esboniodd Dafydd Llywelyn y byddai'n trafod y persbectif a'r effaith o safbwynt Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o ran Cymru sy'n fwy diogel i Fenywod a Merched.

Nododd fod Plismona yng Nghymru yn cydweithio ac yn cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru o fewn y strwythurau sydd wedi'u sefydlu. Soniodd am ei farn bersonol nad ydyn nhw'n eistedd ar seiliau statudol cadarn, ond gallai hyn newid pe bai datganoli pellach, a fyddai i'w groesawu gan bob un o bedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Esboniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn fod y Comisiynwyr yn gweithio o fewn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a bod ganddynt gysylltiadau ehangach â Llywodraeth Cymru o fewn Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Ef yw Cadeirydd presennol y Grŵp Plismona yng Nghymru y mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r pedwar Prif Gwnstabl yn aelodau ohono, gan weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ac mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wir yn croesawu'r rhyngweithio hwn ynghyd â chyswllt rheolaidd ag Aelodau o'r Senedd a Llywodraeth Cymru.

Soniodd Dafydd Llywelyn yn benodol am y gwaith a wnaed yn y maes hwn gan Eleri Thomas ac Emma Wools, sydd ill dwy yn Ddirprwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Ngwent ac yn Ne Cymru, yn ogystal ag Alison Perry, ei Gyfarwyddwr Comisiynu yn Nyfed Powys.

Soniodd am brif ffigur y buddsoddiad cyfun ledled Cymru gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o £4.6 miliwn mewn gwasanaethau trais a cham-drin domestig ehangach gan gynnwys gwasanaethau trais rhywiol.

Mae pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn comisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol gan wasanaethau arbenigol i helpu i atal troseddu a darparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ymdopi ac adfer yn dilyn troseddau, pob un ohonynt yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol.  Mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu comisiynu ar gyfer dioddefwyr trais a cham-drin domestig a thrais rhywiol ym mhob un o bedair ardal Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru, ac mae hynny'n cynnwys eiriolaeth a chefnogaeth gan Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol lleol (IDVA) yn ogystal ag Eirolwyr Trais Domestig a Rhywiol Annibynnol (IDSVA) sy'n darparu gwasanaethau i ddioddefwyr risg safonol, risg canolig a risg uchel, ac sy'n cynnwys gwasanaethau cwnsela yn ogystal â gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae ysgolion a lleoliadau Addysg bellach yn gyfarwydd iawn ag *Operation Encompass* lle mae datgeliadau'r Heddlu yn cael eu gwneud i ysgolion cyn gynted â phosibl fel bod ysgolion yn dod yn ymwybodol o'r bobl ifanc a allai fod wedi dioddef trawma o ganlyniad i drais domestig.

Yn hanesyddol mae pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ariannu nifer o brosiectau peilot, er enghraifft Gwasanaethau Cyflawnwyr er mwyn mynd at wraidd achos troseddau.  Mae hyn wedi helpu i newid rhywfaint ar y dirwedd o ran comisiynu gwasanaethau a chryfhau'r perthnasoedd â'r Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol a sefydliadau anllywodraethol yng Nghymru.

Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys y Rhaglen Ymyrraeth Teuluol a'r Prosiect Gyrru sy'n gweithio gyda'r sawl sy'n cam-drin yn ddomestig gan achosi cryn niwed. Derbyniwyd cyllid ychwanegol yn uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref i helpu i gefnogi'r gwasanaethau hyn.  Fodd bynnag, cododd y Comisiynydd Dafydd Llywelyn bryderon ynghylch cyllid grant a'r prosesau sydd eu hangen i gael cyllid.

Profwyd Clinig Stelcio yn Nyfed Powys sydd bellach wedi aeddfedu i fod yn glinig rhanbarthol ar gyfer ymyriadau cyflawnwyr, a ariennir ar y cyd gan bartneriaid. Ceir rhaglenni cymorth ar-lein, ymyriadau wyneb yn wyneb ar sail unigol ac ar sail grŵp sy'n cefnogi'r troseddwyr. Cafwyd buddsoddiadau pellach gan y Swyddfa Gartref, ac mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys yn edrych i gryfhau gwasanaethau cyflawnwyr gan gynnwys canolbwyntio ar ymyriadau mwy ataliol ac addysgol i'r rhai sydd mewn perygl, felly nid canolbwyntio'n unig ar wasanaethau dioddefwyr a wneir, ond eir i'r afael â'r cyflawnwr trosedd hefyd.

Ar hyn o bryd mae rhaglenni peilot yn rhedeg ledled Cymru lle mae Eiriolwyr Trais Domestig a Rhywiol Annibynnol (IDSVA) yn mynd gyda Swyddogion Heddlu gweithredol i helpu gyda chyfleoedd mynediad cynnar.

Ar hyn o bryd mae Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn treialu Llwybrau i Fyw Heb Ofn, gan gynnig cefnogaeth i ddioddefwyr sydd am ddwyn ymlaen gyhuddiadau neu gael eu cyfeirio at wasanaethau lleol.  Ar hyn o bryd mae Change That Lasts yn cael ei ariannu gan Gomisiynydd yr Heddlu a

Throseddu De Cymru, gyda ffocws unwaith yn rhagor ar atal ac ymgysylltu a datblygu cymunedol. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwerthuso i ddeall beth sy'n gweithio, rhannu arfer gorau a chydweithio ar draws pedwar ardal yr heddlu yng Nghymru.

Mae'r pedwar Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn cael eu cadeirio gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sy'n rôl bwysig gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac maent wedi mabwysiadu blaenoriaethau o dan faner Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Llinyn arian drwy'r holl gynllun cyflenwi yw'r cynnig gwasanaethau cefnogi dioddefwyr, edrych ar y gwaith o reoli troseddwyr, ymyrraeth gynnar ac atal, ochr yn ochr â hil ac anghydraddoldebau, a thrais yn erbyn menywod a merched. Adlewyrchir hyn ar y lefelau cenedlaethol a lleol o fewn heddluoedd, ac felly y bu ers nifer o flynyddoedd. Mae Penaethiaid a Chomisiynwyr yr Heddlu yn cefnogi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn llawn i flaenoriaethu a hyrwyddo'r agenda hon.

O ran cydweithio ehangach, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn chwarae rhan fawr wrth ail-lunio ac ailfodelu Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Difrifol ledled Cymru, gan geisio darparu gwasanaethau mewn modd amserol ond hefyd o leoliad daearyddol priodol.

Mae grŵp Plismona Cymru wedi llunio tasglu ar gyfer materion trais yn erbyn menywod a merched, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Emma Wools, gan ddangos y safle amlwg ac arweiniol sydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r agenda hon ledled Cymru.

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru ar gyflawni'r strategaeth a'r glasbrint mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a gwneir hyn hefyd ar lefel leol.

Gorffennodd Dafydd Llywelyn trwy ddweud mai'r hyn sy'n bwysig o safbwynt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw bod pob Comisiynydd yn cael ei ystyried yn hyrwyddwr lleol i'r dioddefwr, a sicrhau bod dioddefwyr wrth wraidd gweithgarwch ein sefydliad.

4. **<u>Pam Kelly - Prif Gwnstabl Heddlu Gwent</u>**

Croesawodd y Prif Gwnstabl Kelly bawb i'r cyfarfod.
Tynnodd sylw at y prif ystadegau canlynol:

- Mae menywod yn fwy tebygol o brofi trais o ran amlder a difrifoldeb, a hynny dim ond oherwydd eu bod yn fenywod.
- Mae 1.6 miliwn o fenywod y flwyddyn yn adrodd am gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr
- Mae 90% o achosion sy'n gysylltiedig â dioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol yn fenywod

Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl Kelly fod gan bob un ohonom lawer iawn o waith i'w wneud i sicrhau bod cenedlaethau o ferched y dyfodol yn ddiogel yn ein cymunedau.

Mae'r ffocws bellach yn disgyn ar y meysydd canlynol i roi darlun clir o beth yw trais yn erbyn menywod a merched mewn gwirionedd.

Diffinio (VAWDASV) - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
Cyd-destun cenedlaethol - Beth sy'n digwydd ar draws Cymru? Nodi'n glir y cyd-destun yng Nghymru gan ein bod yn gwneud llawer o waith ac ar hyn o bryd ar y blaen yn hyn o beth yng Nghymru
Hyder y cyhoedd
Gweithredu gan yr heddlu, diwylliant mewnol - Yr hyn y mae heddluoedd yng Nghymru wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud.
Ein cyfrifoldeb ar y cyd fel gweision cyhoeddus yng Nghymru a modelau rôl yn ein cymunedau yw nid yn unig geisio gwneud gwahaniaeth ond ein bod angen gwneud gwahaniaeth.

Cododd y Prif Gwnstabl Kelly y cwestiwn, beth yw trais yn erbyn menywod a merched?

- Trais Rhywiol
- Aflonyddu rhywiol
- Camfanteisio rhywiol
- Cam-drin domestig
- FGM
- Priodas dan orfodaeth
- Troseddau Seiliedig ar Anrhydedd

Mae'r rhain yn cynrychioli rhai o'r themâu cyffredin yr adroddir amdanynt i'r heddlu. Fodd bynnag, mae peth o'r trais hwn a'r diwylliant presennol yn deillio o'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau o ran casineb at fenywod a ffordd o feddwl, cartrefi pobl, o fewn y cyfryngau, ac wrth gwrs yr hyn a wnawn fel gweision cyhoeddus o ran galw allan ymddygiadau o'r fath.

Amlygodd mai'r Prif Gwnstabl Claire Parmenter yw'r Arweinydd Cenedlaethol ar Blismona yn y Gymdogaeth, y Prif Gwnstabl Carl Foulkes yw'r Arweinydd Cenedlaethol mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac mai hi yw'r Arweinydd Cenedlaethol ar y Gweithlu a Chydlyniant, a Diwylliant a Chynrychiolaeth mewn Gwasanaethau Plismona. Felly o safbwynt Cymru rydyn ni'n gwthio agenda plismona'r DU.

Mae achos Sarah Everard wedi syfrdanu pawb, bod Swyddog yr Heddlu a oedd yn gwasanaethu yn defnyddio ei fathodyn, ei bŵer a'i safle i fynd â menyw ifanc oddi ar y stryd a'i lladd. Wrth edrych ar hyn a'r achos mae'r Heddlu Metropolitan yn edrych arno o ran sut mae pobl yn cael eu fetio, sut rydyn ni'n delio â gwybodaeth yn ein cymunedau am swyddogion heddlu, yn ddiamheuol mae heddluoedd wedi ymateb i hyn ac nid heddiw yn unig ond ers blynyddoedd yng Nghymru, gan geisio nodi pobl sy'n achosi hafoc yn ein cymunedau boed hynny mewn gwasanaethau cyhoeddus ai peidio.

Mae yna strategaeth wedi bod ar waith ers dros 5 mlynedd, mae'r strategaeth hon yn cwmpasu'r hyn y mae'r NPCC (Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu) yn dechrau gweithio arno.  Mae hyn yn ymwneud â diogelwch mewn mannau cyhoeddus, y System Cyfiawnder Troseddol ynghylch sut rydym yn cofnodi digwyddiadau a throseddau a sut y gallai hyn yn y dyfodol gynnwys cofnodi casineb at fenywod fel trosedd ynghyd ag ymddygiadau yn ein cymunedau, ein gweithleoedd a sut rydym yn cynnwys hyn i gyd yn ein partneriaethau. Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl Kelly fod a wnelo hyn ag addysg, beth sy'n digwydd yn ein hysgolion a sut rydym yn dangos y gwerthoedd hyn ar draws y gwasanaeth cyhoeddus cyfan.

Mae angen cyfiawnder cyflym i ddioddefwyr troseddau, mae tasglu o amgylch cyfiawnder troseddol wedi'i sefydlu yng Nghymru ac ar draws pob un o'r 4 heddlu sy'n arwain ar y meysydd hollbwysig hyn.  Dadleuodd y Prif Gwnstabl Kelly fod yn rhaid i ni herio ein hunain ac asiantaethau partner fel CPS (Gwasanaeth Erlyn y Goron) ynghylch pam ei bod yn cymryd cymaint o amser i achosion trais, ymosodiadau rhywiol a cham-drin domestig gyrraedd y llys, a sut mae heddluoedd wedi bod yn gweithio'n ddiflino i gyflymu'r prosesau cyfiawnder troseddol hynny yn ystod argyfwng Covid. Fodd bynnag, mewn gwirionedd nid yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli i Gymru ac nid yw cyfiawnder yn digwydd mor gyflym ag yr hoffai heddluoedd i ddioddefwyr trais rhywiol, ymosodiad rhywiol a cham-drin domestig ac mae angen help cydweithwyr ar draws yr holl asiantaethau partner, gan gynnwys Aelodau o Senedd Cymru a Senedd y DU, fel nad yw dioddefwyr yn gorfod aros rhwng 6 a 12 mis i gyrraedd y llys.

Mae'r gwaith atal a wnawn gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Cyswllt Ysgolion mewn ysgolion yn gwbl hanfodol.  Mae sut rydyn ni wedyn yn ymateb i gynlluniau dargyfeirio i ddargyfeirio pobl oddi wrth yr ymddygiad hwn yn fater allweddol ynghyd â sut rydyn ni'n cefnogi dioddefwyr o fewn y system gyfiawnder a'u helpu i wella.  Rhod bod cyllid ar gael i'w roi i'r gwasanaethau gorau fel y canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol a Phlismona sy'n Canolbwyntio ar Blant a deall bregusrwydd, ac mae hyn i gyd yn cysylltu â'r strategaeth trais yn erbyn menywod a merched.

Pwysleisiodd CC Kelly fod heddluoedd yn deall yr effaith y mae achos Sarah Everard wedi'i chael ar hyder y cyhoedd mewn heddluoedd ac mae cyfle heddiw i roi rhywfaint o sicrwydd i Aelodau o'r Senedd. Mae adrannau safonau proffesiynol heddluoedd yn monitro, yn ceisio gwybodaeth, yn targedu, sicrhau cyfiawnder a dwyn ymlaen wrandawiadau chamymddwyn i bobl sydd wedi torri safonau ar draws pob un o'r 4 heddlu.  Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu y bydd Aelodau o'r Senedd yn gweld mwy o achosion yn y penawdau o ran cam-drin pŵer a/neu gam-drin pwerau at ddibenion rhywiol, oherwydd y bwriad yw canfod unrhyw un sy'n peryglu ein cymuned neu sy'n torri safonau neu ymddygiad proffesiynol.

Nododd y Prif Gwnstabl Kelly fod hyn nid yn unig yn digwydd mewn heddluoedd ond mewn proffesiynau eraill ac fe'i gwelir ar draws ein cymdeithas. Mae 4 Prif Gwnstabl Cymru wedi ymrwymo i ddull cadarn o wrth-lygredigaeth ac i ymdrin â chamddefnyddio swydd at ddibenion rhywiol, gan ychwanegu bod angen i'r neges a'r ymrwymiad hwn fynd ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac nad oedd amser i wneud dim ond siarad yn ei gylch, ond bod rhaid targedu'n rhagweithiol ac yn dawel y bobl lle bo gwybodaeth i awgrymu eu bod wedi torri safonau

ymddygiad neu wedi cyflawni trosedd. Mae'n rhaid i'n cyfrifoldeb ar y cyd fod yn rhagweithiol wrth herio'r ymddygiad hwn.

Tynnodd y Prif Gwnstabl Kelly sylw at y digwyddiad Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd gan bledio i fodelau rôl gwrywaidd cryf fod yn llais yng Nghymru drwy godi eu llais. Mae menywod a merched eisiau gweld modelau rôl yn angerddol ynghylch yr agenda o ran trais yn erbyn menywod a merched.

Mae'r Prif Gwnstabliaid yng Nghymru eisiau i bobl ddod ymlaen a riportio cam-drin domestig, treisio ac ymosodiadau rhywiol. Maent yn dylanwadu ac yn cydweithio â staff yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron ac eraill fel bod cyfiawnder yn cael ei sicrhau i ddioddefwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Rhaglen yr Heddlu yn Ysgolion Cymru a arweinir gan y Prif Gwnstabl Claire Parmenter. Mae'r Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn mynd i mewn i bob ysgol yng Nghymru ac mae dinasyddiaeth, perthnasoedd, perthnasoedd iach oll yn rhan o'r cwricwlwm.

Mae angen i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac eraill sy'n gweithio gyda Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu arwain ar rywfaint o'r gwaith hwn i gefnogi Plismona yng Nghymru. Mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i bawb o ran ein hymrwymiad cyllid a'n penderfyniad i sicrhau ein bod yn gwneud i bethau ddigwydd.

Aeth Pam Kelly ymlaen i gyflwyno Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, ac Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent i drafod peth o'r gwaith y maent wedi bod yn ei wneud ar yr agenda trais yn erbyn menywod.

## 5. **Emma Wools – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Dywedodd Emma Wools ei bod yn awyddus i ategu ambell bwynt a wnaed eisoes.

Rydym oll yn cymryd perchnogaeth fel gwasanaethau cyhoeddus, bod hwn yn fater cymdeithasol a diwylliannol felly partneriaeth yw'r unig ffordd y gallwn fynd i'r afael â'r mater hwn o’r cyfnod addysg, gan addysgu bechgyn a merched fel ei gilydd ynghylch agweddau at ein gilydd ac ymddygiadau priodol, ynghyd â buddsoddi yn yr ymateb i gyflawnwyr risg uchel.

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru wedi buddsoddi i fynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ers blynyddoedd lawer ond mae’n bwysig ein bod yn mynd ymhellach ac yn gyflymach, sef yr hyn yr ydym yn ymateb iddo ar hyn o bryd.

Ychwanegodd Emma Wools at sylwadau blaenorol y Prif Gwnstabl Kelly ynghylch sefydlu tasglu, mewn ymateb i'r drafodaeth gyhoeddus ynghylch trais yn erbyn menywod a merched. Mae hyn yn dwyn ynghyd y gwaith sylweddol a wneir ar draws heddluoedd a gwasanaethau cyhoeddus, wedi'i yrru gan yr angen i un fforwm gael darlun llawn o'r ymatebion a'u cydlynu, gan ddarparu atebion yn gyflym wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

Mae Emma Wools ac Eleri Thomas yn cyd-gadeirio'r tasglu sy'n dwyn ynghyd y 4 heddlu ynghyd â phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhai o'n prif randdeiliaid Cyfiawnder Troseddol i allu ystyried sut rydym yn datrys problemau a mynd i'r afael â'r mater hwn gyda'n gilydd.

Yn y tymor hwy, mae heddluoedd a Chomisiynwyr wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru ers cryn amser yn datblygu a chyflawni eu hymrwymiad i gynhyrchu eu strategaeth 5 mlynedd nesaf, gan fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae'r heddlu yng Nghymru wedi ymrwymo i arwain unwaith y bydd y strategaeth honno wedi'i diffinio a'i nodi ac, ynghyd â phartneriaid, bydd yr heddlu yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb ar yr ymrwymiad a'r amcanion a nodwyd, ac wrth wneud hynny yn datblygu glasbrint o'r ffordd yr ydym yn mynd i gyflawni ein hymatebion o atal i reoli troseddwyr a delio â chyflawnwyr risg uchel.

Bydd hwn yn ymrwymiad cydweithredol a bydd yn cynnwys arweinyddiaeth, cyd-gynhyrchu a gallu ymgysylltu â'n sefydliadau anllywodraethol a'n partneriaid yn ogystal â lleisiau dioddefwyr sydd wedi goroesi. Maen nhw'n mynd i fod yn ganolog i'r ffordd rydyn ni'n dylunio ac ymateb o ran ein hatebion yn y dyfodol, ac rydyn ni wrthi'n datblygu modelau a meithrin arfer gorau sydd eisoes ar waith ledled Cymru o ran sut rydyn ni'n ymgysylltu â menywod, merched a dynion wrth inni ddelio â'r mater hwn.

6. **<u>Eleri Thomas – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent</u>**

Cadarnhaodd Eleri Thomas y buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau i ddioddefwyr a chyflawnwyr ledled Cymru. Ychwanegodd fod yr arweinyddiaeth, y cyflymder a'r momentwm a welir gan heddluoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn dangos ein penderfynoldeb i sicrhau newid sylweddol yn ein hymagwedd tuag at drais yn erbyn menywod a merched.

Soniodd Eleri Thomas y wefan "Everyone's Invited" sy'n edrych ar brofiad disgyblion a dysgwyr ledled Cymru a Lloegr mewn perthynas ag ymarddeliad ac ymddygiad rhywiol mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill. Mae Jane Bryant AS wedi gofyn i bwyllgor plant a phobl ifanc y Senedd ymchwilio i faterion o fewn addysg.

Pwysleisiodd Eleri Thomas fod angen i ni feddwl nid yn unig am drais domestig sy'n digwydd yng nghartrefi pobl, ond mewn mannau cyhoeddus a sut rydyn ni'n dechrau cael y sgwrs am strydoedd mwy diogel a lleoedd cyhoeddus mwy diogel, ac yn bwysicaf oll ein rôl fel gwasanaethau cyhoeddus a chyflogwyr wrth gefnogi ein staff.

O ran cam-drin ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn rhinwedd ein rôl fel arweinwyr yr heddluoedd, cadarnhaodd Eleri Thomas yr ymrwymir yn llwyr i Aelodau o'r Senedd fod yr heddlu yng Nghymru yn benderfynol o fwrw ymlaen â hyn gydag argyhoeddiad llwyr.

7. **<u>Cwestiynau a thrafodaeth</u>**

Diolchodd Helen Cunningham, y Cadeirydd dros dro, i'r siaradwyr ac agorodd y llawr i gwestiynau

**Alun Davies – Aelod o'r Senedd (AS) (Llafur)**

Diolchodd Alun Davies AS i'r siaradwyr am y cyflwyniad pwerus gan dynnu sylw at y fantais o anfon y wybodaeth hon at Aelodau o'r Senedd nad ydynt wedi gallu dod i'r cyfarfod.

Gofynnodd sut y gallem newid y diwylliant, gan ofyn sut y gallem gyflawni hynny gan ddod at ein gilydd fel gwleidyddion ac arweinwyr i greu'r newid diwylliant hwn

Nododd ymhellach fod Eleri Thomas wedi rhoi cyflwyniad ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent ynghylch Menywod yn y system Cyfiawnder Troseddol, ac er ei fod yn wahanol i'r trafodaethau heddiw, nododd y byddai'n dda archwilio'r materion hynny ar sut mae menywod yn cael eu trin yn y system Cyfiawnder Troseddol gan bwysleisio bod rhai enghreifftiau da yn yr Alban lle gallem geisio ambell ffordd arloesol o symud ymlaen.

Ychwanegodd fod hyder yn deillio o sylwedd; nid yw'n ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus yn unig na gwneud fideos hyrwyddo. Gyda digon o sylwedd, dim ond wedyn y bydd hyder y cyhoedd yn cael ei ailadeiladu.  Soniodd am gyfweliad y BBC gyda dwy fenyw ifanc ar ôl achos Sarah Everard, a dywedodd y menywod ifanc hynny fod ganddynt hyder llwyr yn yr heddlu oherwydd bod yr heddlu yn eu hysgolion, yn eu cymuned, roeddent yn eu hadnabod hwy, eu teuluoedd a phwy oeddent, gan bwysleisio pwysigrwydd heddlu yn ein cymunedau.

**Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

Diolchodd Dafydd Llywelyn i Alun Davies am ei gwestiynau, a chytunodd gyda'i safbwynt yn nodi bod pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cymru a Phenaethiaid yr Heddlu eisoes yn gweithio gyda'i gilydd, felly dylem weithio gyda'n gilydd ar yr agenda hon

O ran diwylliant a hyder y cyhoedd, nododd ein bod yn unigryw gan fod gennym un ethos gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n treiddio ar draws yr heddlu, er nad yw plismona wedi ei ddatganoli, nid yw hyn yn golygu na all yr heddlu chwarae ei ran mewn byrddau gwasanaethau cyhoeddus a fforymau eraill.

Mae'r her ar gyfer yr heddlu yn gysylltiedig â hyder y cyhoedd a sut rydym yn profi agwedd diwylliant yr heddlu.  Unwaith eto, mae plismona yn unigryw yng Nghymru gan fod yno bedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gweithio gyda'r pedwar Prif Gwnstabl, a gellir cyflawni rhai pethau gwych dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**Claire Parmenter – Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys**

Pwysleisiodd Claire Parmenter bwysigrwydd yr heddlu yn y gymdogaeth yng Nghymru, a gofynnodd i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus i

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Cyswllt Ysgolion ledled Cymru sydd oll yn cyfrannu'n sylweddol at fesurau atal, y diwylliant, y sicrwydd a'r gwelededd mewn perthynas â phob problem o ran trais yn erbyn menywod a merched.  Roedd hyn yn atgyfnerthu pa mor bwysig yw plismona lleol yn ein cymunedau.

**<u>Jeff Cuthbert – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent</u>**

Mae'r ffordd y mae'r heddlu yn cydweithredu yn gyffredinol ac nid yn unig pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu trwy Plismona yng Nghymru yn hollbwysig, ond hefyd gyda gwasanaethau cyhoeddus drwy Fwrdd Partneriaeth yr Heddlu sy'n profi'n hynod effeithiol.  Nododd Jeff Cuthbert ein bod i bob pwrpas yn gweithredu yma yng Nghymru fel pe byddem wedi ein datganoli, er ein bod yn deall y ffactorau ffurfiol ac yn derbyn cyllid craidd yr heddlu gan y Swyddfa Gartref.

Soniodd mor bwysig ydyw i wasanaethau cyhoeddus a gwleidyddion etholedig yng Nghymru drafod â'r heddlu yn uniongyrchol pan fydd mater i ddelio ag ef, oherwydd nid yn unig y gall yr heddlu ymateb ond gallent ymateb mewn ffordd gydlynus ledled Cymru, felly mae'n hollbwysig bod Plismona yn rhan o'r isadeiledd. Ychwanegodd fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn Lloegr yn eithaf cenfigennus o lefel y cydweithredu sydd gan yr heddlu yng Nghymru â gwasanaethau cyhoeddus eraill, a gallwn ni i gyd deimlo budd o hyn.

**<u>Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys</u>**

Nodwyd awgrym Alun Davies o ran darparu nodyn briffio yn dilyn cyfarfod y grŵp trawsbleidiol, ac mae hwn yn un y byddai'n ei gefnogi gan y byddai hyn yn ddefnyddiol i Aelodau o'r Senedd nad ydynt wedi gallu bod yn bresennol i elwa ar y sesiynau hyn hefyd. Roedd Dafydd Llywelyn yn hapus fel cadeirydd presennol grŵp Plismona yng Nghymru i fwrw ymlaen â'r weithred hon.

**Cam gweithredu: Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn i ddarparu nodyn briffio ar Gymru sy'n fwy Diogel i Fenywod a Merched**

**<u>Eleri Thomas – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent</u>**

Pwysleisiodd Eleri Thomas mor bwysig ydyw bod Aelodau o'r Senedd a'u Swyddfeydd yn cefnogi aelodau o'r cyhoedd sy'n awyddus i riportio troseddau, y gwrandewir arnynt, ac os bydd unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymateb yr heddlu mae'n bwysig ein bod yn clywed hynny'n uniongyrchol gennych chi gan ei bod yn bwysig adeiladu'r berthynas.

**<u>Pam Kelly - Prif Gwnstabl Heddlu Gwent</u>**

Gofynnodd Pam Kelly, gan nad oedd nifer o Aelodau o'r Senedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, a fyddai'n werth ailadrodd y sesiwn ar gyfer yr Aelodau hynny o'r Senedd nad oeddent yn gallu bod yno oherwydd amserlenni prysur.

7. **<u>Sylwadau i gloi - Helen Cunningham, Cadeirydd dros dro</u>**

Diolchodd y cadeirydd dros dro i bawb am ddod, gan nodi bod y cyflwyniad yn cynnig trosolwg gwych o Gymru sy’n fwy diogel i Fenywod a Merched, gyda rhai materion allweddol wedi'u hamlygu a phwyntiau gweithredu pwysig yn codi o'r cyfarfod.

Pwysleisiodd, fel bob amser, y croesewir clywed gan unrhyw un sy'n dymuno cysylltu cyn y cyfarfod nesaf gydag unrhyw sylwadau neu syniadau yn dilyn y cyfarfod heddiw

Daeth y cyfarfod i ben am 13.30.